**Ysgol Bodhyfryd**
**Polisi gwisg ysgol**

Polisi Ysgol Bodhyfryd yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Mae'r polisi yn sicrhau y rhoddir sylw teilwng i ddeddf hawliau dynol 1998, Deddf cydraddoldeb 2010, confensiwn y cenhedloedd unedig a hawliau'r plant er mwyn gofalu bod disgyblion o wahanol ryw a rhywedd, disgyblion o gefndiroedd ethnig a chrefyddol gwahanol a disgyblion anabl yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthnasedd â pholisiau gwisg ysgol ac edrychiad. Rhoddir sylw hefyd i gost a fforddiadwyedd gwisg ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o hunaniaeth, cymuned a chydlyniant yn yr ysgol
- cefnogi ymddygiad cadarnhaol a disgyblaeth yr ysgol
- sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol sydd hefyd yn werth da am arian;
- dileu'r pwysau ymhlith cyfoedion i wisgo dillad o ffasiwn benodol
- sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn rhannu hunaniaeth gyffredin sy'n cynnwys eu gofynion penodol
- helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhwng disgyblion a helpu i leihau rhai ffactorau sy'n arwain at fwlio
- bod o fudd o ran polisïau diogelu a phresenoldeb drwy helpu i adnabod triwantiaid
- helpu i nodi diethriaid ar safle'r ysgol
- cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol

**Archebu dillad ysgol**

Ceir manylion pellach am sut i archebu gwisg ysgol ar wefan yr ysgol. Mae hefyd croeso I chi gysylltu âswyddfa'r ysgol. Nid yw gwisg brand yn orfodol.

**Meithrin**

Rydym yn annog rhieni neu ofalwyr i brynu gwisg ysgol hyd oed pan fydd plentyn yn yr oed meithrin. Mae'r wisg fel a ganlyn;

- trowsus / sgert ddu neu lwyd;
- esgidiau addas du
- crys polo gwyn
- crys chwys coch

**Blwyddyn Derbyn, Blwyddyn 1 & 2**

*Pob plentyn*
trowsus du / sgert ddu neu lwyd
crys polo gwyn
siwmper ysgol neu gardigan ysgol goch
esgidiau du
*Yn ystod tymor yr haf gellir gwisgo ffrogiau haf/ siorts pe dymunir.*

**Blwyddyn 3,4,5 & 6**

*Pob plentyn*
trowsus du / sgert ddu neu lwyd
crys polo gwyn
siwmper ysgol neu gardigan ysgol goch
esgidiau du
*Yn ystod tymor yr haf gellir gwisgo ffrogiau haf/ siorts pe dymunir.*

***Addysg Gorfforol***
siorts du
crys t coch
plimsolls du
bag Add. G.

Gellir casglu archebion am wisg ysgol o swyddfa'r ysgol. Gallwch dalu gyda arian neu siec. Yn ogystal a dillad, mae capiau, bagiau gwaith cartref a bagiau Addysg Gorfforol ar gael.

**Enwau ar ddillad / dillad coll**

Rydym yn annog y rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gyda enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau a plimsolls adysg gorfforol. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

**Esgidiau**

Rydym yn annog y plant i wisgo esgidiau du i'r ysgol. Dylai fod yr esgidiau yn ddiogel ac yn addas i chwarae yn ddiogel tu allan ar fuarth neu gae yr ysgol(tymor yr haf). Ni ddylai'r un plentyn wisgo esgidiau gyda sodlau uchel.

**Gemwaith**

Nid yw'r ysgol yn caniatau i blant wisgo gemwaith i'r ysgol (ac eithrio 'studs') Rhaid i blant sy'n eu gwisgo eu cymryd i ffwrdd cyn sesiwn AG. Os nad yw hyn yn bosib, disgwylir I'r plant orchuddio'r clustlogau.

**Gwisgoedd ysgol ail- law**

Bydd gwisgoedd ysgol ail- law ar gael i ddisgyblion eu caffael. Bydd hyn hefyd yn hyrwyddo cynaliadwyedd a manteision amgylcheddol.

**Grant hanfodion Cymru**

Mae cymorth ar gael i helpu gyda chostau gwisg ysgol a phethau eraill i blant ysgol o deuluoedd ag incwm isel. Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i https://www.wrecsam.gov.uk/service/grant-hanfodion-ysgol

**Os nad yw gwisg ysgol yn cydymffurfio â'r polisi hwn:**

1. Bydd y tîm arweinyddiaeth neu'r athro/ athrawes yn cysylltu â rhieni neu ofalwyr i ofyn am eu cefnogaeth, fel y cytunwyd yn y cytundeb cartref/ ysgol
2. Os bydd y problem yn parhau, ar ôl i'r cyfnod amser gael ei cytuno, bydd y Pennaeth yn cysylltu â'r rhieni.

**Newid mewn polisi**

Os caiff y polisi gwisg ysgol ei newid, dylid cyflwyno cyfnod pontio fel y gellir gwisgo'r hen wisg ysgol am o leiaf blwyddyn.